# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Y Cwmpawd Gilfach

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinwyr yn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) portffolio Y Cwmpawd Gilfach yn cydweithio i ddatblygu gweledigaeth glir, sy'n sail i waith yr UCD. Maent yn dechrau sefydlu gweledigaeth ar y cyd ar sail gwerthoedd cynhwysol i, 'berthyn, dyheu, cyflawni'. Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl. Mae gan arweinwyr synnwyr brwd o waith tîm, ac mae cydweithio ar draws y darpariaethau yn datblygu'n dda. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at gysondeb gwell mewn ychydig o feysydd, fel ymddygiad a lles. Mae arweinwyr wedi cyflwyno strwythurau atebolrwydd cliriach a chynnig dysgu proffesiynol buddiol. Fodd bynnag, nid yw prosesau cynllunio strategol a hunanwerthuso yn ddigon cadarn i yrru gwelliant.

Ar draws tair darpariaeth Y Cwmpawd Gilfach, mae staff yn sefydlu amgylcheddau dysgu tawel a phwrpasol, y mae perthnasoedd parchus rhwng staff a disgyblion yn sail iddynt. Mae'r rhan fwyaf o staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac yn creu amgylcheddau cynhwysol a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymddygiad yn sefydlog ar draws yr UCD, ac mae staff yn rheoli anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol. Mae dysgu proffesiynol targedig a chyflwyno'r polisi 'Barod i Ddysgu' yn ddiweddar yn hyrwyddo ymagwedd gyson at ymddygiad ar draws y darpariaethau.

Mae gweithio mewn partneriaeth ag ystod fuddiol o bartneriaid allweddol yn gryfder nodedig. Mae hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at wella lles disgyblion ac yn eu cynorthwyo'n llwyddiannus i ymgysylltu â dysgu.

Mae ansawdd a chydlyniant y cwricwlwm yn amrywio'n sylweddol ar draws y darpariaethau. Mae Innovate a The Hive yn cynnig cwricwla effeithiol, strwythuredig sy'n diwallu anghenion unigol disgyblion ac yn cefnogi deilliannau cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm yn Nhŷ Gilfach wedi'i ddatblygu'n ddigonol, sy'n rhwystro cynnydd disgyblion.

Mae disgyblion yn elwa ar brofiadau dysgu difyr, ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn llafaredd ac ysgrifennu, ac yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn addas mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Nid yw medrau digidol a medrau Cymraeg disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. At ei gilydd, mae'r diffyg prosesau asesu a'r drefn gyfyngedig o ran olrhain cynnydd disgyblion yn rhwystro gallu staff i gynllunio profiadau dysgu sy'n datblygu medrau disgyblion yn raddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol yn Innovate a The Hive, lle mae cymorth wedi'i deilwra ac yn cael ei olrhain yn dda. Yn Nhŷ Gilfach, fodd bynnag, mae systemau i nodi a chefnogi ADY yn llai datblygedig, ac ni chaiff anghenion disgyblion eu diwallu bob amser.

Mae presenoldeb yn faes allweddol i'w wella. Er bod presenoldeb yn addas yn Innovate a The Hive, mae'n parhau i fod yn rhy isel yn Nhŷ Gilfach, lle mae disgyblion yn manteisio ar leoliadau rhan-amser. Nid yw prosesau i fonitro ac adolygu trefniadau presenoldeb wedi'u datblygu'n ddigonol, sy'n effeithio ar degwch

y cynnig cwricwlwm.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnig goruchwyliaeth strategol gynyddol ac yn cyfrannu'n effeithiol at feysydd fel recriwtio a diogelu. Maent yn adnabod yr UCD yn dda, gan nodi'n gywir ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw wedi sicrhau bod arweinwyr wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol yn ddigon cyflym.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar o argymhellion i helpu'r UCD i barhau i wella, sef:**

A1 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel i wella trylwyredd ac effeithiolrwydd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gyda ffocws clir ar wella'r deilliannau ar gyfer pob un o'r disgyblion

A2 Gwella presenoldeb, yn cynnwys mynediad at addysg amser llawn ar gyfer pob un o'r disgyblion

A3 Datblygu arweinyddiaeth strategol y cwricwlwm i sicrhau cynllunio cydlynus, dilyniant a darpariaeth deg, yn enwedig yn Nhŷ Gilfach

A4 Sefydlu systemau cadarn ar gyfer olrhain asesu a dilyniant yn Nhŷ Gilfach i fonitro deilliannau disgyblion a llywio cynllunio

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr UCD hon. Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/08/2025